Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen: 6 - 12 Gorffennaf 2009

www.llangollen2009.com

Gwybodaeth i'r Wasg a'r Cyfryngau

Tocynnau i'r wasg ar gael ar gais, cysylltwch â swyddfa Mr Producer (manylion isod).

Cyfweliadau ar gael ar gais gyda'r holl artistiaid, gwesteion arbennig a'r cystadleuwyr cyn yr Eisteddfod ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Cystadlaethau: Tocynnau diwrnod a chyngherddau ar gael ar gais i'r rhai sy'n bwriadu cynnwys gwybodaeth am Eisteddfod Llangollen. (cysylltwch â swyddfa Mr Producer)

Cysylltwch â swyddfa Mr Producer. Ffôn:02920 916667/07815 902015. Ebost:llangollen@mrproducer.co.uk

Amlinelliad o'r Ŵyl:

Am un wythnos, mewn un dref, daw pobl o dros 50 gwlad ynghyd ar gyfer un o ddigwyddiadau mwyaf unigryw Cymru. Ym mis Gorffennaf, daw 50,000 o berfformwyr ac ymwelwyr o bedwar ban byd i Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy, Gogledd Cymru. Mae'r digwyddiad cŵl a diwylliannol hwn, a gaiff ei ystyried fel 'anrheg Cymru i'r Byd', ei sefydlu ym 1947 i hybu heddwch ac ewyllys da rhwng cenhedloedd trwy gerddoriaeth a dawns. Mae Eisteddfod Llangollen yn mynd o nerth i nerth ac erbyn hyn yn un o wyliau mwyaf lliwgar y byd. Ceir thema benodol i bob diwrnod ac yn ystod pob diwrnod mae maes yr ŵyl wastad llawn bwrlwm gyda chystadlaethau ar y brif lwyfan, perfformiadau ar y maes, gweithdai, canu a dawnsio byrfyfyr o bedwar ban byd mewn gwisgoedd traddodiadol. Mae cyngherddau Gala a gaiff eu cynnal gyda'r nos wedi denu enwau mwyaf y byd adloniant megis Pavarotti, Michael Ball, Elaine Paige, Domingo, Katherine Jenkins a Dame Shirley Bassey. Mae eleni hefyd yn sicr o syfrdanu gyda chyngherddau gyda **Faryl Smith, Barbara Dickson, Syr Willard White, Blake, Natasha Marsh**, ac hyd yn oed **Cerddoriaeth James Bond**, ymhlith y gwesteion arbennig bydd **Honor Blackman**, sef Pussy Galore! Am goctel ffrwydrol! Ymunwch â gweddill y byd, ymynwch yn yr hwyl. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01978 862 001 neu ewch i'r wefan **www.llangollen2009.com**

Amserlen grynno yr Ŵyl

Sesiynau'r Dydd:

Dydd Mawrth 7 Gorffennaf:	Diwrnod Rhyngwladol y Plant
Dydd Mercher 8 Gorffennaf:	Diwrnod Canu a Dawnsio Rhyngwladol
Dydd Iau 9 Gorffennaf:	Diwrnod Ryngwladol Ieuenctid
Dydd Gwener 10 Gorffennaf:	Diwrnod Ryngwladol Geltaidd a Gwerinol
Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf:	Diwrnod Ryngwladol y Teulu
Dydd Sul 12 Gorffennaf:	NEWYDD Diwrnod ychwanegol o weithgareddau a cherddoriaeth ar Faes yr Eisteddfod ac yn nhref Llangollen

Cyngherddau'r Nos:	I gyd yn cychwyn am 7:45yh Ffôn: 01978 862001
Dydd Llun 6 Gorffennaf:	**Gala Agoriadol** - Faryl Smith, Mark Evans, Côr Meibion Froncysyllte, Cantorion Colin Jones, Côr Godre'r Aran, Alexei Kalvecs
Dydd Mawrth 7 Gorffennaf:	**Barbara Dickson** – Yn fyw yn Llangollen
Dydd Mercher 8 Gorffennaf:	**Cyngerdd Heddwch Llangollen**
Dydd Iau 9 Gorffennaf:	**Syr Willard White** - Robeson Re-Explored
Dydd Gwener 10 Gorffennaf:	**Blake a Natasha Marsh**
Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf:	**Côr y Byd**
Dydd Sul 12 Gorffennaf:	**'Licensed to Thrill'** – Carl Davies yn cyflwyno cerddoriaeth James

Cystadleuwyr

Pob Gorffennaf bydd 4,000 o gerddorion, cantorion a dawnswyr o bedwar ban byd yn dod i Langollen i berfformio yn un o wyliau mwyaf lliwgar y byd sydd iddi deimlad unigryw o Heddwch ac Ewyllys Da.

Boed yn ddawnswyr, cerddorion, corau, unawdwyr... mae yna gystadleuaeth i bawb yn yr Eisteddfod, gyda chynrychiolwyr o tua 50 gwlad pob blwyddyn.

A tydi'r profiad o Langollen ddim wedi ei gyfyngu i'r llwyfan – bydd cystadleuwyr yn cymryd rhan mewn gorymdaith gwefreiddiol ar y stryd ac yn ymuno yn hwyl yr Ŵyl ar faes yr Eisteddfod, a chaiff perfformwyr rhyngwladol eu gwahodd i berfformio mewn cyngherddau syfrdannol gyda artistiaid byd eang o'r radd flaenaf.

Trefnir **Sgyrsiau Cyn-Cyngerdd** ym mhabell Cyfeillion Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen (FLIME) ar ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn am 6:15 y.h.

Llwyfannau'r Maes
Mae tri llwyfan ar faes yr Ŵyl a gaiff eu defnyddio pob dydd ar gyfer perfformiadau sydd wedi eu trefnu o flaen llaw a rhai byr-rybydd gan grwpiau sy'n ymweld ac artist sydd yn cymryd rhan yng nghyfres World Music @ SIX.

Manylion llawn y gystdalaethau a'r amserlen ar gael ar **www.llangollen2009.com**. Mae'r rhestr isod yn ddetholiad o **Uchafbwyntiau Gŵyl 2009** a all fod o ddiddordeb i chi.

Uchafbwyntiau Gŵyl 2009:

Dydd Llun 6 Gorffennaf

Cyflwynydd: **Sian Lloyd**
Perfformiwr: **Faryl Smith**
Perfformiwr: **Mark Evans**

7:45yh - Cyngerdd Nos: Cyngerdd Gala Agoriadol (Ymarfer 4:30yh)

Eleni bydd Cyngerdd Gala Agoriadol yn cael ei gynnal ar ddydd Llun 6 Gorffennaf. Bydd nifer o sêr y byd gerddorol yn perfformio gan gynnwys y gantores ifanc, **Faryl Smith, Mark Evans** a gyrhaeddodd rownd derfynol 'Your Country Needs You' a **Chôr Meibion Froncysyllte** a ffurfiwyd yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod Ryngwladol gyntaf Llangollen ym 1947, ers hynny maent wedi mynd o nerth i nerth ac wedi ennill clod mawr gyda'u halbwm 'Voices of the Valley'.

Hefyd yn perfformio bydd **Côr Godre'r Aran** a enillodd y gystadleuaeth Corau Meibion yn Eisteddfod llynedd**, Cantorion Colin Jones** a'r tenor ifanc **Alexei Kalvecs** hefyd yn ymddangos. Bydd y gyngerdd yn cefnogi 'Cronfa Apêl Bwrsariaeth Cystadleuwyr' sy'n cynnig cefnogaeth ariannol i grwpiau o gystadleuwyr deithio o bob cwr o'r byd. Bydd cyfraniad o elw'r Gala hefyd yn mynd i **Hosbis Llety'r Eos Wrecsam**, mewn cysylltiad â Chôr Godre'r Aran.

Faryl Smith: *"Dwi'n wirioneddol yn edrych 'malen i ddychwelyd i Langollen, achos mae gen i atgofion gwych o gystadlu yn yr Eisteddfod; dyna oedd fy mhrofiad cyntaf o berfformio ar lwyfan rhyngwladol ac mi roddodd hyder i mi i ddilyn fy mreuddwyd".*

Mark Evans: *"Mae gofyn i mi ganu mewn Gwyl Rhyngwladol sydd mor agos i gartre yn gymaint o anrhydedd ac yn swyn i'r glust".*

Sian Lloyd: *"Mi rydw i wedi bod yn ddigon ffodus fel Ysgrifenwraig Teithio i ymweld a rhai o leoliadau prydfertha'r byd ond gallaf ddweud, gyda llaw ar fy nghalon, fod Llangollen cystal ag unrhyw le, mae'r ardal yn wledd i'r llygaid. Mi rydw i'n hynnod filch o fod yn Lusgenad ar gyfer Gwyl Rhyngwladol Llangollen, sydd yn denu pobl o bedwar ban byd i ymweld a'r lle hyfryd hwn".*

Dydd Mawrth 7 Gorffennaf

Llysgennad: **Sian Lloyd**
Perfformiwr: **Barbara Dickson**

Sesiynau'r Dydd: Diwrnod Rhyngwladol y Plant

10:30yb, 12:00yh and 13:30yh - Neges Heddwch ac Ewyllys Da (Llwyfan y Pafiliwn)
Bydd 5000 o blant ar faes yr Ŵyl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Plant. Hefyd caiff y **Neges Heddwch ac Ewyllys Da** draddodiadol ei berfformio ar lwyfan y Pafiliwn gan blant ysgol leol. Caiff ei berfformio tair gwaith yn ystod y dydd am 10:30, 12:00 ac am 13:30 gyda phob perfformiad yn para tua 45 munud. (Cyfle i'r wasg fynychu'r ymarfer cyn y dydd)

4:30yh - Gorymdaith y Cenhedloedd
Pob blwyddyn bydd lliwau a chynnwrf yr Ŵyl yn gorlifo i strydoedd tref Llangollen gyda **Gorymdaith y Cenhedloedd.** Fel pob blwyddyn ers 60 mlynedd, bydd cystadleuwyr o bob gwlad yn gorymdeithio trwy tref prydferth Llangollen a dros y bont enwog yn eu gwisgoedd traddodiadol lliwgar. Yn ddiynnol a dywycc ffafriol, bydd y gorymdaith yn gadael maes yr Eisteddfod ar ddydd Mawrth 7 Gorffennaf am 4.30 y.h.

World Music @ SIX (Llwyfan tu allan): Sarah Savoy a'r **Cajuns** – Cerddoriaeth o Louisiana

7:45yh - Cyngerdd Nos: Barbara Dickson – Yn fyw yn Llangollen (Ymarfer 4:45pm)

Bydd **Barbara Dickson** yn cyfuno'r hen a'r newydd gyda'i chlasuron enwog a'i chaneuon gwerinol eu naws gan gynnwys caneuon megis *I know Him So Well*. Daw'r gantores a'r actores amryddawn hon sydd wedi gwerthu miloedd ar filoedd o recordiau ac wedi ennill Gwobr Olivier i Langollen gyda'i harddull unigryw a gwefreiddiol.

Barbara Dickson: *"Dwi heb berfformio yng Ngogledd Cymru ers amser maith ac rwy'n edrych ymlaen at gael ymweld â Llangollen. Mae'n ardal hardd a diwylliannol ac mae cael bod yn rhan o Ŵyl sy'n dathlu cerddoriaeth yn rhyngwladol yn rhywbeth cyffroes iawn. Fel Celtes, mae cerddoriaeth yn rhywbeth sylfaenol i mi ac o ganlyniad mae'n bleser gennyf ddod i ganu yng ngwlad y gân unwaith eto".*

Dydd Mercher 8 Gorffennaf

Llywydd y Dydd: **Shan Cothi**
Llywydd Llangollen a chyflwynydd y Cyngerdd Heddwch: **Terry Waite CBE**
Perfformiwr: **Brian Kay**

Sesiynau'r Dydd: Diwrnod Canu a Dawnsio Rhyngwladol

Mae rowndiau derfynnol y gystadleuaeth yn cychwyn o ddifrif ac yn amrywio o gorau plant i ddawnsio gwerin draddodiadol. Diwrnod unigryw o liw, amrywiaeth a safonau anhygoel.

10:00yb – Lansiad 'Coeden Heddwch' (cyferbyn y Babell Flodau)
I ddathlu gweledigaeth wreiddiol yr Ŵyl, bydd Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn lansio **Coeden Heddwch** ble, am gyfraniad ariannol, gall pobl adael neges heddwch er mwyn sicrhau fod gweledigaeth sefydlwyr yr Ŵyl yn goroesi i genhedloedd y dyfodol. Bydd Virginia Barret yn perfformio ei chân 'One Voice', a gyfansoddwyd yn arbennig am ymroddiad yr Eisteddfod i Heddwch. Bydd nifer o Swyddogion yr Eisteddfod hefyd yn bresennol.

Am gyfraniad o 50 ceiniog neu fwy, bydd **Y Goeden Heddwch** yn galluogi pobl i nodi neges heddwch a fydd yn cael ei glymu i'r goeden. Caiff yr holl negeseuon eu casglu ar ddiwedd yr Ŵyl a'u cyhoeddi mewn llyfryn a fydd ar gael i'w brynu ac i ysbrydoli. Bydd yr arian a godir trwy'r **Goeden Heddwch** yn galluogi Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen i barhau i uno cenhedloedd y bydd ac i fod yn symbol o heddwch rhyngwladol. Mae goeden wedi ei ddylunio a'i adeiladu gan Bob Attenburrow, sydd yn dathlu 50 mlynedd o gwirfoddoli gyda'r Eisteddfod, a Rob Edwards, gwr ifanc a gafodd ei gyflwyno i'r Eisteddfod gan ei dad a oedd yn gyfrifol am adeiladu'r ardal gefn-llwyfan am bron i 40 mlynedd.

11:00yb – Cyflwyniad Rhyngwladol y Soroptimist International Presentation (ar y bryn ger pabell y Soroptimist)
I ddathlu eu perthynas hir gydag Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen mae Soroptimist Rhyngwladol wedi comisiynu mainc bren a fydd yn cael ei ddadorchuddio ar faes yr Ŵyl.

Mae **Soroptimist International** yn sefydliad rhyngwladol i fenywod proffesiynol, yn gweithio trwy brosiectau gwasanaethu i hyrwyddo hawliau dynol a statws merched. Ym mis Medi 2008, lansiwyd yr **ymgyrch *"Where have all the chairs gone?"*** a ddaeth yn ran o Lansiad Prosiect Soroptimist Rhyngwladol, Swydd Gaerlleon, Gogledd Cymru a Chilgwri yn 2008. Mae'r ymgyrch *"Where have all the Chairs gone?"* yn galw am ragor o feinciau mewn ardaloedd cyhoeddus a chadeiriau mewn siopau. Sefydlwyd y prosiect i roi cymorth i'r henoed a'r anabl sy'n cael trafferth gadael y tŷ gan nad oes digon o lefydd i eistedd a gorffwys yn ystod eu siwrnai. Mae Soroptimist International yn galw'r ymgyrch yn *'brosiect cynhwysiant cymdeithasol'* sydd wedi ei dargedu, nid yn unig ar gyfer yr henoed ond hefyd tuag at bobl ifanc sy'n dioddef o anabledd a merched beichiog, sydd angen gorffwys yn aml wrth gerdded ym mhell.

World Music @ SIX (Llwyfan tu allan): Soothsayers – Afro-Beat

7:45yh - Cyngerdd Nos: Cyngerdd Heddwch Llangollen (Ymarfer 6:00pm)

Mae **Cyngerdd Heddwch Llangollen** yn brofiad unigryw sy'n uno dawnswyr a chorau gwerin o bedwar ban byd i hybu neges o heddwch ac ewyllys da rhwng cenhedloedd. Caiff Cyngerdd Croeso Swyddogol yr Eisteddfod ei gyflwyno gan Lywydd yr Eisteddfod **Terry Waite CBE**. Mae'r cyngerdd yn cynnwys gorymdaith i'r llwyfan gan gynrychiolwyr o bob gwlad sy'n cystadlu yn ystod yr wythnos ynghyd â ffanffer trympedi. Bydd **Brian Kay**, cyn-aelod o'r "King's Singers", yn arwain côr o bobl ifanc o 10 gwlad a fydd un canu gydag un llais unedig.

Brian Kay: *"Does dim byd tebyg i'r Eisteddfod: rwyf wedi bod ynghlwm â'r Ŵyl ers bron i 30 mlynedd fel cyflwynydd deledu ac ar lwyfan y digwyddiad unigryw hwn a gaiff ei gynnal pob blwyddyn. Rwyf hefyd yn Llywydd Cyfeillion yr Ŵyl ac wedi bod yn Is-lywydd yr Ŵyl ers rhai blynyddoedd, felly mae'n anodd cofio amser pan nad oedd Eisteddfod Llangollen yn rhan fawr o fy mywyd. Mae gwaith caled a'r cyfraniad y ceir gan bawb yn ei wneud yn uchafbwynt y flwyddyn i gymaint, ac yn sicr i mi. Diolch a fe'ch gwelaf ym mis Gorffennaf!"*

Dydd Iau 9 Gorffennaf

Llywydd y Dydd: **Mike Peters**
Gwestai Arbennig: **Alex Pascal** (Sylfaenydd Carnifal Notting Hill ac ymgyrchydd Hawliau Dynol)
Perfformiwr a Is-Lywydd Llangollen: **Sir Willard White**

Sesiynau'r Dydd: Diwrnod Ryngwladol Ieuenctid

'Un Byd, Un Weledigaeth, Un Ieuenctid'
Fel rhan o '**Un Byd, Un Weledigaeth, Un Ieuenctid'** ar Diwrnod Rhyngwladol Ieuenctid, a fydd yn dathlu ieuenctid o bedwar ban byd ac yn rhannu gweledigaeth o fyd wedi eu uno trwy gerddoriaeth a dawns, bydd digwyddiad newydd a chyffroes yn cael ei gynnal sef **'Cylch Heddwch'**.

11:50yb – 'Cylch Heddwch' – (Tu allan y Pafiliwn)
Bydd **'Cylch Heddwch'** yn un o brif digwyddaidau Dydd Rhyngwladol Ieuenctid ac o ddiddordeb arbennig oherwydd y neges symbolaidd weledol cryf. Bydd yr holl blant o'r holl wledydd sy'n cymryd rhan yn yr Ŵyl i gyd yn croesi eu breichiau i amgylchynu'r Pafiliwn am funud o dawelwch a fydd yn gyrru neges unedig o heddwch i'r byd. (Amser i'w gadarnhau – 10:00 y.b neu hanner dydd)

Cyn **'Cylch Heddwch'** bydd, Alex Pasley, disgybl o flwyddyn Ysgol Dinas Branyn darllen ei **Neges Heddwch** buddugol o'r enw **"*A Beautiful, Brilliant Word*"**. Caiff Alex ei gydnabod yn swyddogol ar lwyfan yr Eisteddfod gan **Terry Waite CBE**, sef Llywydd presennol yr Eisteddfod.

11:15yb – 11:50yb – Pabell Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyfle i ymwelwyr yr Eisteddfod a chystadleuwyr i gyfarfod Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau. Bydd **Mervyn Cousins** a **Terry Waite** yn mynychu ac yn cyfarfod Aelodau'r Pwyllgor. Aelodau Cynulliad yn mynychu: **Sandy Mewies** (Delyn), **Rhodri Glyn Thomas** (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr) a **Mike German** (De Orllewin Cymru). Bydd **Janet Ryder AS**, Cadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad hefyd yn mynychu. Bydd y digwyddiad eithaf anffurfiol hwn yn gyfle i ymwelwyr ddarganfod mwy am swyddogaeth Pwyllgor y Cynulliad wrth gysylltu ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol.

World Music @ SIX (Llwyfan tu allan): Etran Finatawa – Cerddoriaeth yr Anialwch

7:45yh - Cyngerdd Nos: Syr Willard White - Robeson Re-Explored (Rehearsal 6:15pm)

Bydd un o ffefrynnau'r Eisteddfod, **Sir Willard White** yn dychwelyd i Langollen ac yn ymchwilio bywyd a cherddoriaeth un o eiconau cydraddoldeb a hawliau dynol, **Paul Robeson**. Caneuon 'spirituals' bythgofiadwy, jazz a gwerin, gan gynnwys *Steal Away*, *Ain't Necessarily So* ac *Ol' Man River*.

Sir Willard White: *"Fel Is-lywydd Eisteddfod Llangollen, rwy'n edrych ymlaen yn arw at gael dychwelyd i'r wledd gerddorol hon. Rwy'n sicr y byddaf yn cael croeso cynnes Cymreig a rhyngwladol yn y rhan hyfryd hwn o Ogledd Cymru. Mae amrywiaeth y perfformwyr a'r cystadleuwyr sy'n teithio o bedwar ban byd i gystadlu yn yr Eisteddfod yn anhygoel. Mae fy nheyrnged i Paul Robeson ar nos Iau'r Ŵyl wedi bod yn llafur cariad ac rwy'n gobeithio y bydd y gynulleidfa yn mwynhau eu hunain cymaint ag ydw i wedi mwynhau rhoi'r cyngerdd at ei gilydd".*

Dydd Gwener 10 Gorffennaf

Llywydd y Dydd: **Dr Karl Jenkins**
Perfformiwr: **Blake**
Perfformiwr: **Natasha Marsh**

Sesiynau'r Dydd: Diwrnod Ryngwladol Geltaidd a Gwerinol

Bydd Corau a Cheltiaid yn llenwi'r Pafiliwn gyda sain gwych a thelent diddiwedd. Llu o berfformiadau corawl unigryw i Langollen – Canu Gwerin, Siambr, Corau Cymysg ynghyd â pibau, ffidlau a drymiau yn y Pafiliwn ac ar y maes.

11:15yb a 3:00yh - 'Un Gwen, Byd Eang' – Llwyfan allanol S4C
Bydd y prosiect **'Un Gwen, Byd Eang'** a arweiniodd at Langollen yn derbyn **Marc a ysbrydolwyd gan 'London 2012'**, yn ychwanegu rhagor o liw ac chyffro i Ddiwrnod Celtaidd a Gwerinol Ryngwladol. Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, caiff doniau pobl anabl a dan anfantais eu harddangos ar faes yr Ŵyl.

Bydd **Blake** a **Natasha Marsh** a fydd yn perfformio gyda'r nos, hefyd yn bresennol i wylio perfformiad prynhawn (3:00y.h.) o **'Un Gwen, Byd Eang'** ac yna cyfarfod y perfformwyr i'w hysbrydoli i gyflawni uchelgeisiau personol hyd yn oed uwch yn y dyfodol. Bydd y perfformwyr sy'n cymryd rhan yn derbyn tystysgrif ac yn canu cân a gyfansoddwyd yn arbennig gan Gyfarwyddwr Gweithredol yr Eisteddfod, Mervyn Cousins o'r enw 'All the World, One Smile'. (Cyfle i'r wasg fynychu ymarfer cyn y dydd).

Caiff recordiad o un o'r grwpiau'n canu'r gân **'Un Wên, Byd-eang'** ei wneud cyn y dydd h.y. mewn ymarfer a/neu o'r grŵp gyfan yn canu ar y dydd. Fel dilyniant i'r prosiect **'Un Wên, Byd-eang'**, y gobaith yw y bydd yr Ŵyl yn gwerthu recordiad o'r gân i godi arian neu ar gyfer elusen.

Yn dilyn y cyhoeddiad fod yr Ŵyl yn un o'r sefydliadau cyntaf yng Nghymru i dderbyn Marc a Ysbrydolwyd agn London 2012, a gaiff ei wobrwyo i brosiectau arloesol a newydd sydd wedi eu hysbrydoli gan y Gemau Olympaidd yn Llundain 2012, fe anfonodd **Blake** eu cyfarchion i'r Ŵyl *"Llongyfarchiadau i Langollen ar y ffaith eu bod wedi eu gwobrwyo a'r 'Marc Ysbrydoli', rydym yn ymfalchïo o fod yn gysylltiedig â'r Ŵyl wrth iddynt dderbyn yr anrhydedd yma, a'r ffaith ein bod yn rhan o'r prosiect* ***'Un Gwen, Byd Eang'*** *yn ystod y dydd."*

Perfformwyr 'Un Wên, Byd-eang':

- **Côr Cymunedol Open Arts** (o Ogledd Iwerddon a gymerodd ran lwyddiannus yn rhaglen y BBC 'Last Choir Standing', Cyfarwyddwr - Bev White)
- **Susan Hedges** (cantores a chyfansoddwraig ddall o Gilgwri)
- **Ysgol Gynradd Rhosymedre** (Pennaeth yr Ysgol - Roz Harrison)
- **Dynamics** (Wrecsam)
- **Cymuned Philippino Gogledd Cymru**
- **Kids Fun Club** (o'r Rhyl)
- **Grwp Gofalwyr Ifainc Gogledd Cymru**

World Music @ SIX (Llwyfan tu allan): Spiro a **Fiona Mackenzie** – Sain y Gogledd

Cyngerdd Nos: Blake a Natasha Marsh

Bydd **Natasha Marsh** yn ymuno a'r enillwyr Gwobr Brit, **Blake** ar gyfer noson gyffroes sy'n cwmpasu opera, clasuron a chaneuon poblogaidd. Albwm **Blake**, a ryddhawyd yn 2007 ac aeth i rif un oedd yr ail albwm yn unig i llwyddo i ennill gwobr 'Albwm y Flwyddyn' yng Ngwobrau'r Brit Clasurol. Maent wedi perfformio ar lwyfannau'r Royal Albert Hall, Wembley a Twickenham ac mae Blake (sef baritonau Stephen Bowman a Jules Knight, a'r tenoriaid Ollie Baines a Humphrey Barney) yn paratoi i godi'r to yn yr Eisteddfod gyda'u sain unigryw.

Disgrifwyd **Natasha Marsh**, a aned yn Aberhonddu, fel 'llais newydd rhamant'. Yn ogystal â'i halbwm *Amour*, mae ei hi wedi gwneud sawl ymddangosiad operatig gan gynnwys ar y gerddoriaeth ar gyfer rhaglenni Euro 2008 ITV.

Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf

Llywydd y Dydd: **Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru**

12:00-5:00yh – Fydd **Alun Ffred Jones, Y Gweinidog dros Dreftadaeth** yn ymweld a'r Ŵyl ac yn cael taith gan Mervyn Cousins, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Eisteddfod.

Sesiynau'r Dydd: Diwrnod Ryngwladol y Teulu

Llond gwlad o adloniant cerddorol gyda Chorau Merched a Chorau Meibion, clasurol a harmoni agos – gan gynnwys 'Barbershop' a chaneuon o sioeau gerdd a grwpiau dawnsio gwerin ryngwladol. Bydd hefyd llu o Adloniant Teuluol ar y maes gan gynnwys gweithdai crefft, creu mosaig a chanu.

Darlleniad gan Mary Mestecky ac arwyddo llyfrau - ' Adventure at Dinas Brân'
11:30yb – Llwyfan Iceland
1:00yh – Pabell Cyngor Sir Ddinbych
2:00yh – Canolfan Gwybodaeth
Bydd yr awdures **Mary Mestecky** yn darllen ei nofel i blant **'Adventure at Dinas Brân'** – sy'n adrodd hanes criw o ddreigiau sy'n ymweld ag ardal Llangollen ac yn cael eu hysbrydoli gan yr Eisteddfod Ryngwladol, bydd hi hefyd yn arwyddo copiau o'r nofel fel rhan o Ddydd Rhyngwladol y Teulu.

(Amser i'w gadarnhau) - Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Newydd (Llwyfan y Pafiliwn)
Eleni, mae'r Eisteddfod wedi cyflwyno Cystadleuaeth Ffotograffiaeth newydd sbon a fydd yn cynnwys yr holl gystadleuwyr – o dramor, o Brydain ac yn Unawdwyr – ac wedi ei seilio ar y thema 'Heddwch'. Bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno un llun gwreiddiol (lliw neu du a gwyn) erbyn dydd Mercher 8 Gorffennaf.

Fe gaiff y llun buddugol ei ddewis oddi ar rhestr fer o 10 llun gan Andrew Gale a Peter Evans, dau ffotograffydd lleol, a'r Pach. Andrew Sully, un o wirfoddolwyr yr Eisteddfod ar Ddydd Gwener 10 Gorffennaf. Caiff yr enillydd ei gyhoeddi arlwyfan y Pafiliwn ar Ddydd Sadwrn 11 Gorffennaf ac yn dilyn hyn, caiff yr wobr o 100 Ewro ei gyflwyno. Bydd y llun buddugol a'r naw llun arall oddi ar y rhestr fer yn cael eu harddangos o amgylch y maes, byddent hefyd i'w gweld ar wefan yr Eisteddfod, **www.llangollen2009.com**

World Music @ SIX (Llwyfan tu allan): Cerddoriaeth o Dde America

7:45yh - Cyngerdd Nos: Côr y Byd – Tlws Pavarotti (Ymarfer 6:45pm)

Cystadleaueth corawl enwocaf y byd... Bydd y corau buddugol o'r prif gystadlaethau corawl yn cystadlu yn y Rownd Derfynol Fawreddog. Bydd y côr buddugol yn derbyn Tlws Pavarotti, a enwyd ar ôl y Tenor Eidalaidd byd enwog a fu'n cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod yn 1955 pan deithiodd i Langollen gyda chôr Meibion o Modena. Yn 2005, fe ychwanegodd Luciano Pavarotti ei enw i gystadleuaeth Côr y Byd. Bydd yn noson yn cychwyn gyda sioe ddawns gwefreiddiol.

Dydd Sul 12 Gorffennaf

Cyflwynydd: **Honor Blackman**
Gwestai Arbennig: **David Pender Richards** – Cadeirydd Aston Martin

Sesiynau'r Dydd: Diwrnod ychwanegol o weithgareddau a cherddoriaeth

Eleni, am y tro cyntaf erioed, bydd Eisteddfod Llangollen yn cynnig diwrnod ychwanegol o ddigwyddiadau ar y dydd Sul a fydd yn golygu y bydd CHWE diwrnod o ddigwyddiadau, ddydd a nos. Mewn cydweithrediad â'r gymuned leol, bydd yr Eisteddfod yn cynnig llu o artistiaid yn perfformio ar y maes ac yn nhref Llangollen trwy gydol y dydd ychwanegol.

6:15yh – Cyngerdd Cynnar Ychwanegol (Llwyfan allanol): The Naked Violin
Bydd y feiolinydd unigol byd enwog, Tamsin Little, yn cynnal cyngherdd ar faes yr Eisteddfod.

7:45yh - Cyngerdd 'Licensed to Thrill' – Cerddoriaeth James Bond (Ymarfer 2:45-5:45yh)

Caiff y gyngerdd anhygoel **'Licensed to Thrill**' ei gynnal ar ddydd Sul 12 Gorffennaf. Bydd **Cerddoriaeth James Bond** yn cael ei berfformio gan **Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru**, dan arweiniad **Carl Davis** a chyda'r **Ferch Bond, Honor Blackman** sef Pussy Galore yn cyflwyno. Bydd y gyngerdd hefyd yn cynnwys perfformiadau gan ddau o gantorion mwyaf talentog y West End a theledu, **Mary Carewe** a **Simon Bowman**. Caiff y gynulleidfa gwledd i'r glust gyda sain anhygoel y gerddorfa a chaneuon poblogaidd megis *Goldfinger*, *You Only Live Twice*, a'r *Bond Theme* eiconig. Bydd y gyngerdd a'r Ŵyl yn cloi gyda tan gwyllt syfrdanol. Hefyd, bydd **2 ceir Aston Martin** ar faes yr Eisteddfod yn ystod y prynhawn a'r nos (darparwyd gan Stratstone of Wilmslow) a'r gwestai arbennig yn y Cyngerdd 'Licensed to Thrill' fydd David Pender Richards, Cadeirydd Aston Martin.

Amrywiol:

Nwyddau Eisteddfod Llangollen
Eleni mae'r Eisteddfod wedi lansio nwyddau newydd gan gynnwys crysay chwys, crysau-t a chrysau polo i gyd â logo'r Eisteddfod arnynt. Hefyd mae cyfres o newyddau 99 ceiniog ar gyfer plant. Bydd yr holl eitemau ar gael i'w prynu o siop yr Eisteddfod neu drwy'r post o'r wefan **www.llangollen2009.com**

Bydd recordiadau o'r gystadlaethau hefyd ar gael i'w prynu – yn aml o fewn awr o ddiwedd y gystadleuaeth. Hefyd, mae cyfres newydd 'Llangollen Gold' sy'n cynnwys DVDs o berfformiadau Dawns, Barbershop a CD 'Dewis y Cyfarwyddwr Cerdd' o'r ffefrynau o'r pum mlynedd diwethaf.

Llwyfan yr Eisteddfod
Bydd llwyfan newydd yn cael ei ddefnyddio eleni am y tro cyntaf yn y Brif Pafiliwn.

Clwb y Cystadleuwyr
Trwy gydol yr Ŵyl byd Clwb y Cystadleuwyr ar agor i'r holl gystadleuwyr. Bydd digon o hwyl a pherfformiadau byr rybydd i'w cael o bedwar ban byd. Fforograffwyr y wasg a chyfweliadau ar gael. Mae Clwb y Cystadleuwyr yn ddibynol ar nawdd gan gwmniau lleol sy'n ei alluogi i parhau i roi croeso unigryw i'r cystadleuwyr yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

'Miscellany Medley'
Mae Clwb y Cystadleuwyr wedi cyhoeddi llyfr o'r enw 'Miscellany Medley' sy'n cynnwys straeon o'r 6 mlynedd diwethaf o cylchlythyron amrywiol, gyda nifer fawr o erthyglau wedi eu hysgrifennu gan wirfoddolwyr ymroddedig yr Eisteddfod.

39 'Person Dynodedig' Cymorth Cyntaf
Bydd cyfanswm o 39 gwirfoddolwr ychwanegol sydd wedi cael eu hyfforddi i safon 'Person Dynodedig' (cymhwyster cydnabyddedig HSE) ar y maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Fe'u hyfforddwyd gan Gadeirydd yr Eisteddfod sy'n Hyfforddwr Cymorth Cyntaf cymmwys trwy Shorecliffe Training yn Ninbych.

Enwogion/gwesteion arbennig ar gael ar gyfer cyfweliadau cyn yr Eisteddfod ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod ei hun:

Dydd Llun 6 Gorffennaf:
Faryl Smith - Perfformiwr
Mark Evans - Perfformiwr
Sian Lloyd – Cyflwynydd

Dydd Mawrth 7 Gorffennaf:
Barbara Dickson - Perfformiwr
Sian Lloyd – Llysgennad

Dydd Mercher 8 Gorffennaf:
Terry Waite - Llywydd Llangollen a chyflwynydd y Cyngerdd Heddwch
Brian Kay - Perfformiwr - Cyngerdd Heddwch
Shan Cothi – Llywydd y Dydd

Dydd Iau 9 Gorffennaf:
Sir Willard White - Perfformiwr a Is-Lywydd Llangollen
Mike Peters – Llywydd y Dydd
Alex Pascal – Gwestai Arbennig (Sylfaenydd Carnifal Notting Hill ac ymgyrchydd Hawliau Dynol)

Dydd Gwener 10 Gorffennaf:
Blake – Perfformiwr
Natasha Marsh – Perfformiwr
Karl Jenkins – Llywydd y Dydd

Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf:
Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru – Llywydd y Dydd

Dydd Sul 12 Gorffennaf:

Manylion cyffredinol Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

- Mae'r Eisteddfod yn cynnig platfform i bobl o bedwar ban byd gyfarfod a chyfathrebu drwy iaith ryngwladol greddoriaeth a dawns. Mae hyn yn hybu heddwch, harmoni a dealltwriaeth iachach o ddiwylliant fyd-eang.
- Mae gan yr Wyl gysylltiadau cryf gyda'r Cenhedloedd Unedig ac mi enwebwyd i dderbyn Gwobr Nobel am Heddwch yn 2004.
- Mae'r Tywysog Charles yn Noddwr i'r Eisteddfod a Terry Waite CBE yn Arlywydd.
- Dechreuwyd yr Eisteddfod gan wirfoddolwyr yn 1947 i hybu heddwch ac Ewyllys Da drwy cerddoriaeth a dawns ac erbyn hyn mae'r wyl wedi llwyddo i fod yn un o Wyliau gorau'r byd.
- Mae eu cyngherddau proffesiynnol a'u cystadleuthau dyddiol wedi eu rhwymo hefo gweithgareddau'r maes.
- Mae cartre'r Eisteddfod yn un o drefi hardda'r Wlad, yn Nimbych, Gogledd Cymru.
- Mae'r maes yn llenwi a lliw, dawns a chan bob blwyddyn gyda digwyddiadau awyr agored, gweithdai a pherfformiadau byrfyfyr o bedwar ban byd.
- Bu 50 o wledydd yn cystadu yno llynnedd.
- Bu bron i 4000 o gydtadleuwyr yn perfformio ar lwyfan y Paviliwn yn 2008

Ar gyfer tocynnau neu fanylion pellach 01978 862001 neu **www.llangollen2009.com**

Prisiau tocynnau:
Sesiynau Dydd yn amrywio o £12 i £19
Cyngherddau Nos yn amrywio o £10 i £39

- Gostyngiadau ar docynnau cyngerdd nos Lun i bobl sy'n archebu tocynnau dydd neu tocynnau cyngherddau eraill
- Tocynnau plant £2 yn unig ar brynhawn dydd Mercher – cyfle gwych i gyflwyno plant i liwiau unigryw yr Eisteddfod
- Tocyn Teulu dydd Sadwrn (2 oedolyn a hyd at 3 plentyn) £20 yn unig – gostyngiad ar brisiau 2008

Gwybodaeth Ychwanegol: Caiff ddeiliaid **Tocyn Tymor Llawn** ddewis o'r seddi gorau yn y Pafiliwn i fwynhau cystadleuthau a chyngherddau'r Eisteddfod o ddydd Mercher hyd ddydd Sadwrn, am ddim ond £125 - gostyngiad rhyfeddol o 23% Yn ychwanegol, mae gostyngiad unigryw ar docynnau Cyngerdd Nos Fawrth - prynwch docyn £35 am £30. Caiff ddeiliaid Tocyn Tymor hefyd Gofraglen yr Eisteddfod yn rhad ac am ddim.